LGBC5M/2002

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD LLUN 9fed GORFFENNAF 2002 AM 10.30am YN NHŶ CARADOG

Presennol:

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 20fed Mai 2002.

1.1 **Cytunwyd** y cofnodion hyn.

2. Materion yn Codi.

2.1 Gwefan

i. **Nodwyd** y byddai Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd y Cynulliad yn cynnal gwefan y Comisiwn a hynny cyn diwedd Gorffennaf 2002.

2.2 Cyfarfod Blynyddol

i. **Nodwyd** fod rhai o'r siaradwyr arfaethedig eisoes wedi eu hymrwymo ar ddyddiad y Cyfarfod Blynyddol ac na fyddant yn gallu bod yn bresennol. **Cytunwyd** i addasu'r fformat er mwyn caniatáu ar gyfer y newid yn y siaradwyr.

ii. **Cytunwyd** y byddai'n fanteisiol rhoi cyflwyniad ar ganfyddiadau'r Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraethol Leol i Gymru yn y Cyfarfod Blynyddol. **Cytunwyd** i ofyn i Ysgrifennydd y Comisiwn hwnnw roi cyflwyniad o'r fath.

2.3 Cod Ymarfer ar Fynediad i'r Cyhoedd i Wybodaeth

i. Roedd y Comisiwn yn dal i aros am gyngor gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar fater gallu'r Comisiwn i godi tâl am ddarparu rhai gwasanaethau gwybodaeth.

ii. **Nodwyd** mai Llyfrgelloedd Cyswllt oedd llyfrgelloedd a oedd yn cynnig mynediad cyffredinol i'r rhyngrwyd, felly mae'n bosibl y gellid cael mynediad i wefan y Comisiwn drwyddynt.

3. Arolwg o'r Siroedd a Gedwir – Crynodeb o Gynrychioliadau ac Adroddiad Drafft.

3.1 **Nodwyd** fod cynrychioliadau wedi nodi fod dwy ardal wedi eu hamlygu ar gyfer sylw o dan yr Arolwg o Ffiniau Siroedd a Gedwir yng Nghymru. Yr ardaloedd hyn oedd ar y ffin rhwng Morgannwg Ganol a Gwent mewn cysylltiad ag ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffin rhwng Siroedd a Gedwir Gwynedd a Chlwyd.

3.2 **Nodwyd** hefyd bod angen addasiad rhwng Morgannwg Ganol a De Morgannwg yn dilyn arolwg o'r ffin rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn ardal Cymunedau Llanhari, Pontyclun, Penllyn, Llanddunwyd a Phendeulwyn.

3.3 **Cytunwyd** fod galwadau mewn rhai cynrychioliadau i ddiddymu neu aildrefnu Ffiniau Siroedd a Gedwir y tu hwnt i gylch gorchwyl yr arolwg presennol, ac y byddai angen newid mewn deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer unrhyw newidiadau.

3.4 Ar ôl ystyried y cynrychioliadau **cytunwyd** y dylai'r Comisiwn argymell y dylid symud Awdurdod Unedol Conwy yn ei gyfanrwydd i Sir a Gedwir Clwyd ac y dylai Awdurdod Unedol Caerffili yn ei gyfanrwydd gael ei symud i Sir a Gedwir Gwent. **Cytunwyd** bod y cyfarfod yn derbyn yr adroddiad drafft.

4. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin, Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwm-twrch - Cynrychioliadau.

4.1 Rhoddodd y cyfarfod ystyriaeth i gynrychioliadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd a'r Awdurdodau Unedol mewn cysylltiad â'r arolwg.

4.2 **Cytunwyd** er bod y cynigion a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Powys mewn cysylltiad â Chwm-Twrch Isaf yn ymddangos yn rhesymegol, y byddai angen yn gofyn i Gastell-nedd Port Talbot am ragor o wybodaeth i gefnogi eu cynigion.

4.3 **Cytunwyd** gofyn am eglurhad gan Gyngor Sir Caerfyrddin mewn cysylltiad â'u cynigion ar gyfer Cymunedau Cwm-Twrch Uchaf a Chwarter Bach.

4.4 **Cytunwyd** gofyn am eglurhad gan Gyngor Cymuned Cwmllynfell mewn cysylltiad â'u cynigion yn ardal Cwmllynfell/Chwarter Bach.

4.5 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiynwyr yn cynnal ymweliad safle yn yr ardal brynhawn Llun 2^{ail} Medi 2002.

5. Cais am arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdeistref Sirol Caerffili

5.1 Derbyniwyd cynrychioliadau gan un o drigolion Treharris yn gofyn am arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Caerffili a Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ardal Cymunedau Treharris, Trelewis, Bedlinog a Nelson, er mwyn trosglwyddo'r cymunedau hynny i awdurdod unedol Caerffili.

5.2 **Nodwyd** bod y cymunedau yn y cynnig yn cynrychioli tua 17% o boblogaeth awdurdod Merthyr Tudful.

5.3 **Cytunwyd** pe bai arolwg yn cael ei gynnal, y dylid ystyried yr effaith ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr ac awdurdodau cyfagos.

5.4 **Cytunwyd** i ysgrifennu at y sawl a wnaeth y cais i'w hysbysu fod yr arolwg y tu hwnt i gylch gorchwyl y Comisiwn oherwydd yr effaith bosibl a gâi, oni bai y câi ei gyfarwyddo i wneud hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

6. Unrhyw Fater Arall.

6.1 Cynllun Iaith Gymraeg Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru

i. **Cytunwyd** nad oedd gan y Comisiwn unrhyw sylwadau ar Gynllun Iaith Gymraeg drafft y Cynulliad.

6.2 Cynllun Cyhoeddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nid oedd gan y Comisiwn unrhyw sylwadau i'w cyflwyno ar y Cynllun.

6.3 Arolwg gan Dinas a Sir Caerdydd o Ffiniau'r Cymunedau.

i. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi derbyn y cynigion terfynol gan Ddinas a Sir Caerdydd.

ii. **Nodwyd** hefyd fod y Cyngor wedi derbyn cynrychioliadau yn erbyn ei gynigion drafft mewn cysylltiad â ffin Trelai/Sain Ffagan, ond heb wneud sylwadau gwrthddadleuol iddynt yn eu cynigion terfynol, a oedd wedi aros yn ddigyfnewid ers y drafft.

iii. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at Gyngor Dinas a Sir Caerdydd i egluro ei sefyllfa mewn cysylltiad â'r cynnig ffin cymunedol hwn a'r cynrychioliadau a wnaed yn ei erbyn.

6.4 Dyddiad y cyfarfod nesaf

i. Cynhelir cyfarfod nesaf y Comisiwn ddydd Mawrth 3ydd Medi am 10.00 am.

ii. Roedd dyddiad wedi ei bennu eisoes ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ym mis Hydref, sef dydd Iau 10fed Hydref ar y noson cyn y Cyfarfod Blynyddol.